# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Mai 2017

Amser: Times Not Specified

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4217

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Dai Lloyd AC (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AC<br>Angela Burns AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Caroline Jones AC<br>Lynne Neagle AC |
| Tystion: | Yr Athro Vanessa Burholt, Prifysgol Abertawe<br>Dr Deborah Morgan, Prifysgol Abertawe<br>Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>Rachel Lewis, Age Cymru Wales<br>Victoria Lloyd, Cyfarwyddwr Dylanwadu a Datblygu Rhaglenni, Age Cymru<br>Emma Harris, Samaritans<br>Sarah Stone, Samaritans<br>Dr Kellie Payne, Campaign to End Loneliness |
| Staff y Pwyllgor: | Sian Thomas (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Claire Morris (Ail Glerc)<br><br>Stephen Boyce (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Cafwyd ymddiheuriad gan Jayne Bryant AC a Julie Morgan AC.

## 2 Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd - sesiwn dystiolaeth 1 - Yr Athro Vanessa Burholt a Dr Deborah Morgan

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Vanessa Burholt a Dr Deborah Morgan.

## 3 Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd - sesiwn dystiolaeth 2 - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.
3.2 Cytunodd y Comisiynydd i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'i barn am yr hyn y dylid ei gynnwys yn strategaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd.

## 4 Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd - sesiwn dystiolaeth 2 - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Age Cymru.

## 5 Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd - sesiwn dystiolaeth 4 - Y Samariaid a Campaign to End Loneliness

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o'r Samariaid a'r Campaign to End Loneliness.
5.2 Cytunodd y Samariaid i ddarparu rhagor o wybodaeth am arolwg diweddar gan y Gymdeithas Frenhinol Iechyd Cyhoeddus ar effaith cyfryngau cymdeithasol ar lesiant meddyliol pobl ifanc. Gwnaethant hefyd gytuno i roi rhagor o wybodaeth am gost hunanladdiad, yn nhermau ariannol ac emosiynol.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Ymchwiliad i unigrwydd ac unigedd - trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a roddwyd yn ystod eitemau 2, 3, 4 a 5 y cyfarfod.

## 8 Ymchwiliad i recriwtio meddygol - trafod yr adroddiad drafft

8.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried drafft cyntaf yr adroddiad ar ei ymchwiliad i recriwtio meddygol.